Gweinyddiaeth Cyfiawnder

TROSOLWG O GYNLLUNIAU PEILOT GORCHYMYN ADSEFYDLU IEUENCTID GYDA GOFYNIAD GORUCHWYLIAETH A GWYLIADWRIAETH DDWYS (CYNLLUNIAU PEILOT GAI GGD)

Cefndir i Gynllun Peilot GAI GGD

- Gwnaethpwyd nifer o ymrwymiadau i ddedfrydu ieuenctid yn y Papur Gwyn Dedfrydu, *A Smarter Approach to Sentencing,* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i ofynion Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid gyda gofyniad Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys GAI GGD). Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (PCSSC) 2022 yn galluogi treialu newidiadau i Orchmynion Adsefydlu Ieuenctid gyda gofyniad Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys (GGD).

- Nod y newidiadau yw rhoi hyder i'r llysoedd a'r cyhoedd yng ngallu'r gorchmynion hyn i weithredu fel opsiwn dedfrydu cadarn, ac annog eu defnyddio yn lle cadw plant yn y ddalfa.

- Gwnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymrwymiad seneddol i dreialu a gwerthuso effeithiolrwydd y newidiadau hyn.

Trosolwg o'r Newidiadau i Gynllun Peilot GAI GGD

- **Defnydd gorfodol o Ofynion Monitro Lleoliad Electronig (EMWR) pan fydd y llys yn gosod GAI GGD**
  - Mae hyn yn cynnwys monitro parhaus neu ganfod lleoliad plentyn, y cyfeirir ato yn aml fel Monitro Trywydd, drwy ddefnyddio tag GPS.
  - Ar hyn o bryd, mae ar gael i blant sy'n cael eu rhyddhau'n gynnar o Orchymyn Cadw a Hyfforddi ac i blant sy'n cael eu rhyddhau'n gynnar ar Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref.
  - Bydd Timau Troseddwyr Ifanc yn gallu gofyn am wybodaeth ôl-weithredol oddi wrth y Gwasanaeth Monitro Electronig ynglŷn â lleoliad plentyn. Bydd manylion ar sut i wneud hyn a'r senarios posibl lle gall Timau Troseddwyr Ifanc wneud cais am fap yn cael eu nodi yn y canllawiau cysylltiedig.
  - I'w ddefnyddio fel opsiwn cadarn yn lle'r ddalfa a gall ddarparu ffactorau amddiffynnol, cefnogol a/neu ddiogelu ychwanegol fel helpu i amddiffyn plant rhag llinellau cyffuriau a chamfanteisio.

- **Cynnydd yn uchafswm hyd Gofynion Gweithgaredd Estynedig o 6 mis i 12 mis**
  - I roi mwy o hyblygrwydd i'r llysoedd gadw plentyn allan o'r ddalfa.
  - Mae hefyd yn rhoi'r manteision i'r plentyn o fod yn y gymuned drwy fynediad at gyfleoedd addysg a hyfforddiant ac ymgysylltu â'r teulu.
  - Dylai'r gweithgareddau penodol a all gynnwys gwneud iawn, y penderfyniad i gynyddu'r gofyniad hwn gael eu teilwra i anghenion ac amgylchiadau'r plentyn.

Sut fydd Cynllun Peilot GAI GGD yn cael ei redeg

- Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gwneud newidiadau deddfwriaethol i lansio'r cynllun peilot ar y 3ydd o Orffennaf 2023
- Bydd y pwerau newydd ar gael am leiafswm o 18 mis
- Bydd y pwerau newydd ar gael i bob llys yng Nghymru a Lloegr sy'n gosod GAI GGD pan fydd y plentyn yn cael ei reoli gan Dîm Troseddwyr Ifanc, fel y swyddog cyfrifol ar gyfer y gorchymyn, mewn un o'r Awdurdodau Lleol yn y 3 rhanbarth canlynol yn Lloegr a Chymru

  - Llundain
  - Gorllewin Canolbarth Lloegr
  - Gogledd Ddwyrain Lloegr
  - Cymru

Manylion Cyswllt

Alexandra Stevens - Uwch Gynghorydd Polisi
Simon Emerson - Cynghorydd Polisi YROISSPilot@justice.gov.uk
Thomas West - Arweinydd Tîm Dedfrydu Ieuenctid